| | EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD<br>YNYS MÔN 2026 |
|---|---|
| | Cystadleuaeth 83 – Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4 |
| | Hwyl y Ffair, Catrin Angharad Jones |

Rwyf wrth fy modd yn mynd i'r ffair,
Rwy'n rhuthro lawr i'r stryd,
Y sŵn byddarol dros bob man
A'r nos yn lliwiau'i gyd.

Caf hwyl yn gwibio ar y trên,
Neu ar yr olwyn fawr,
A dacw Deio fyny fry
Yn hongian a'i ben i lawr.

Rwy'n bod yn ddewr a mentro
Ar drên y bwci bo,
Ond cau fy llygaid wnaf yn dynn
A sgrechian o fy ngho'!

Mi fyddai'n gweiddi nerth fy mhen
Gan wibio 'mlaen a nôl,
Ga'i un tro arall plîs? O, mam!
'Sdim ceiniog fach ar ôl!